# Mathemateg a Rhifedd

// Gweithgareddau a Gemau



## Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn edrych ar fesuriadau ansafonol, uchder, pwysau, cynhwysedd màs a siâp 3D.**

## Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Brigau

## Beth i'w wneud…

1. Rhowch eich dysgwyr mewn grwpiau bach.
2. Gofynnwch iddyn nhw chwilio am amrywiaeth o frigau syth yn yr ardal.
3. Gofynnwch iddyn nhw drefnu'r brigau yn ôl hyd, o'r hiraf i'r byrraf.

**Nod y dasg yw bod pob grŵp yn ceisio adeiladu'r tŵr uchaf gan ddechrau gyda'r brigau hiraf.**

**Gallwch ganiatáu amser iddyn nhw ddatrys y pos neu gynnig ychydig o gyfarwyddiadau i'w helpu yn y dechrau.**

4. Yn gyntaf, rhowch ddau frigyn ar y llawr ac yna gosodwch ddau arall ar eu pennau, yn wynebu i'r cyfeiriad arall.
5. Daliwch i osod dau frigyn ar y top gan eu symud ychydig yn agosach i'r canol bob tro.
6. Daliwch i fynd tan i bob brigyn gael ei ddefnyddio i greu'r tŵr.

// *Pa grŵp sydd wedi adeiladu'r tŵr uchaf? Pa dŵr yw'r un mwyaf cadarn a pham?*

**Gallwch ESTYN Y GWEITHGAREDD trwy geisio adeiladu tŵr 3D siâp gwahanol, e.e. un siâp triongl.**

**Gall DYSGWYR LLAI ABL weithio gyda'i gilydd fel un grŵp mawr a chael mwy o gefnogaeth gan yr oedolion.**

**Gall DYSGWYR MWY ABL gwblhau'r gweithgaredd hwn fel her rhwng timau, defnyddio nifer penodol o frigau neu gwblhau'r dasg o fewn amser penodol.**

# TYRAU ALLAN O FRIGAU